| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **25 Mawrth 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Eryl Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg** |
| **Teitl:** | **Cynnig i gau Ysgol Llanbedr ar 31 Awst 2014 a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Borthyn, Rhuthun, yn dibynnu ar ddewis y rhieni.** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yw rhoi gwybod i'r Cabinet am y broses i'w dilyn o ganlyniad i ddiwedd y cyfnod Rhybudd Statudol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Yn dilyn cwblhau'r cyfnod o Rybudd Statudol, mae angen penderfyniad gan y Cabinet ynglŷn ag a ddylid symud ymlaen â'r cynnig i gau Ysgol Llanbedr ar 31 Awst 2014.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Yr argymhellion ar gyfer y Cabinet yw:-

(i) Nodi'r adroddiad penderfyniad a'r adroddiad gwrthwynebiad;

(ii) Yn amodol ar ystyried yr uchod, i gymeradwyo'r penderfyniad o gyhoeddi rhybudd statudol ar y cynnig i gau Ysgol Llanbedr ar 31 Awst 2014 a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Borthyn, Rhuthun, yn dibynnu ar ddewis y rhieni.

## 4. Manylion yr adroddiad.

4.1 Cyhoeddodd y Cyngor Rybudd Statudol ar 29 Ionawr 2014 yn hysbysu rhanddeiliaid am y bwriad i gau Ysgol Llanbedr ar 31 Awst 2014 gyda'r disgyblion presennol yn trosglwyddo i Ysgol Borthyn, Rhuthun amodol ar ddewis y rhieni. Daeth y cyfnod Rhybudd Statudol i ben ar y 25 Chwefror 2014. Gellir cael copi o'r Rhybudd yn ***Atodiad A***.

4.2 Yn unol â gofynion y cod trefniadaeth ysgolion newydd ((http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/school-organisation-code/?lang=en0) cyhoeddwyd y cynigion ar wefan Cyngor Sir Ddinbych a ger y brif fynedfa i'r ysgolion presennol sy'n ymwneud â'r cynnig. Cafodd pob ysgol a oedd yn ymwneud â'r cynnig gopïau caled o'r Rhybudd i'w

dosbarthu i ddisgyblion, rhieni ac aelodau staff (roedd yr ysgolion hefyd yn gallu dosbarthu'r Rhybudd trwy e-bost).

4.3 Ar ddiwrnod cyhoeddi'r Rhybudd Statudol, cafodd y canlynol naill ai gopi caled neu ddolen ar e-bost i wefan Cyngor Sir Ddinbych;

- *Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;*
- *Cyngor Sir y Fflint;*
- *Yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Llanelwy ac Awdurdod Esgobaethol Catholig Wrecsam;*
- *Corff Llywodraethol Ysgol Llanbedr ac Ysgol Borthyn;*
- *Penaethiaid, Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion yr ysgolion canlynol: Ysgol Gellifor, Ysgol Bro Famau, Ysgol Stryd y Rhos ac Ysgol Llanfair DC;*
- *Gweinidogion Cymru;*
- *Pob Aelod o Gyngor Sir Ddinbych;*
- *Yr Aelod Cynulliad sy'n cynrychioli'r ardal a'r Aelod Seneddol sy'n cynrychioli Gorllewin Clwyd;*
- *Estyn;*
- *GWE - y Consortiwm Addysg Rhanbarthol perthnasol*
- *Undebau Llafur athrawon a staff perthnasol;*
- *Taith;*
- *Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Gogledd Cymru;*
- *Cyngor Cymuned Llangwm;*
- *Cyngor Tref Rhuthun;*
- *Cyfleusterau gofal plant lleol;*
- *Tîm Partneriaeth a Chymunedau Cyngor Sir Ddinbych*

4.4 Roedd yn rhaid i bob gwrthwynebiad a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod rhybudd gael ei wneud yn ysgrifenedig neu drwy e-bost. Cafwyd cyfanswm o 121 o wrthwynebiadau; hefyd cafwyd 443 mynegiant o gefnogaeth.

**Proses**

4.5 Wrth benderfynu ar gynigion mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn datgan bod yn **rhaid** i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau:

- *ystyried a oes unrhyw gynigion cysylltiedig eraill;*
- *sicrhau bod yr ymgynghoriad statudol wedi cael ei gynnal yn unol â'r Cod hwn;* [*http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/school-organisation-code/?lang=en*](http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/school-organisation-code/?lang=en)
- *sicrhau bod y cynnig wedi cael ei gyhoeddi yn unol â'r Cod hwn a bod y rhybudd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol;*
- *ystyried y ddogfen ymgynghori a'r adroddiad ymgynghori;*
- *ystyried y gwrthwynebiadau a'r adroddiad gwrthwynebiad ac unrhyw ymatebion i'r rhybudd sy'n cefnogi'r cynigion;*

4.6 Pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd cyfnod atgyfeirio o 28 diwrnod (i Weinidogion Cymru) yn dechrau ar gyfer y cyrff canlynol (*Adran 54 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013*);

- *Awdurdodau lleol arall yr effeithir arnynt gan y cynigion;*
- *Y corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol yr effeithir arni;*

- *Corff Llywodraethol ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig sy'n ddarostyngedig i'r cynigion;*
- *Ymddiriedolaeth dal eiddo ar ran yr ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig sy'n ddarostyngedig i'r cynigion;*
- *Sefydliad addysg bellach yr effeithir arno gan y cynigion*

4.7 Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn datgan yn glir "lle mae cynigion awdurdod lleol wedi derbyn gwrthwynebiadau, ac angen cael eu penderfynu o dan adran 53 o Ddeddf 2013, **ni ddylai'r** awdurdod lleol gyrraedd penderfyniad ar y cynigion hyn gyda meddwl caeedig. **Rhaid** i wrthwynebiadau gael eu hystyried yn gydwybodol ochr yn ochr â'r dadleuon o ran y cynigion ac yn wyneb y ffactorau a nodwyd yn adran 1.3-1.14 y Cod hwn."

4.8 Wrth ystyried y cais dylai'r Cabinet gymryd i ystyriaeth y ffactorau a amlygwyd o fewn y Cod sy'n cynnwys ansawdd a safonau mewn addysg, yr angen am leoedd ac effaith a hygyrchedd ysgolion, adnoddau ar gyfer addysg a goblygiadau ariannol eraill fel y nodwyd yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. *Mae **Atodiad B,** yr Adroddiad Penderfyniad yn darparu'r Cabinet gyda chrynodeb o'r ffactorau i'w hystyried cyn penderfynu ar unrhyw gynnig.*

4.9 Yn ychwanegol, yn unol â Deddf 2013 mae'n ofynnol i'r Cabinet roi ystyriaeth lawn i'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd gan y Gymuned i'r cynnig. Mae'r gwrthwynebiadau wedi cael eu coladu mewn i Adroddiad Gwrthwynebiad sy'n manylu ar y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd ac ymateb yr awdurdod lleol i'r pryderon hyn. Mae hwn ynghlwm fel *Atodiad 1* ***o fewn*** yr Adroddiad Penderfyniad uchod (***Atodiad B***).

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae'r cynnig yn cefnogi'r flaenoriaeth o ***"Wella perfformiad mewn addysg ac ansawdd ein hadeiladau ysgol"*** ac wedi'i amlygu fel ffrwd waith fel a ganlyn: ***"Byddwn yn parhau i adolygu darpariaeth ysgol ar draws y Sir i sicrhau ein bod yn darparu'r nifer cywir o leoedd ysgol, a'u bod o'r math cywir, yn y lleoliad cywir."***

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Ni fydd y cais yn cael effaith ar wasanaethau eraill o fewn y sefydliad.

Yn seiliedig ar drosglwyddo'r holl ddisgyblion presennol i Ysgol Borthyn yn Rhuthun, amcangyfrifwyd y byddai costau cludiant yn tua £26,000 (ar gyfer disgyblion sy'n gymwys o dan Bolisi Cludiant Ysgol Sir Ddinbych). Cost y ddarpariaeth yn Ysgol Llanbedr yw £8,498 fesul disgybl, dyma'r ail gyfradd uchaf fesul disgybl o fewn Sir Ddinbych. Cost y ddarpariaeth yn Ysgol Borthyn yw £4,583 fesul disgybl, byddai hyn yn gostwng pe bai nifer o ddisgyblion yn trosglwyddo o Ysgol Llanbedr i Ysgol Borthyn os byddai'r Cynnig presennol yn cael ei weithredu

**7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad? Dylid atodi Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau fel atodiad i’r adroddiad hwn.**

7.1 Mae'r EqIA a gynhaliwyd mewn perthynas â'r cynnig i gau Ysgol Llanbedr yn amlygu bod yr ysgol yn darparu addysg gynradd sy'n seiliedig ar ffydd (yr Eglwys yng Nghymru) drwy gyfrwng y Saesneg. Os bydd y cynnig yn cael ei symud ymlaen byddai'r ddarpariaeth hon yn dod i ben.

7.2 Mae Ysgol Borthyn wedi cael ei henwi fel yr ysgol gynradd amgen gan ei bod hefyd yn darparu addysg gynradd cyfrwng Saesneg sy'n seiliedig ar ffydd o fewn 3 milltir i Lanbedr.

7.3 Gellir gweld yr EqIA llawn yn ***Atodiad C.***

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

8.1 Mae ymgynghoriad llawn wedi ei gynnal gyda'r holl randdeiliaid a chyflwynwyd canfyddiadau'r cyfnod ymgynghori ffurfiol i'r Cabinet ar 14 Ionawr 2014. Mae’r gwrthwynebiadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod rhybudd statudol wedi eu crynhoi yn yr adroddiad gwrthwynebiad.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Ychydig iawn o gostau sydd yna fel y dangosir uchod. Cafodd y goblygiadau ariannol ar y cau eu cynnwys yn yr adroddiad i'r Cabinet ar 14 Ionawr. Bydd y cau yn cynhyrchu arbedion a dylai'r rhain gael eu hail-fuddsoddi yn y gyllideb Addysg.

**10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae posibilrwydd cryf y gallai'r cynnig arwain at gyhoeddusrwydd anffafriol ar gyfer y Cyngor a sylwadau cyhoeddus andwyol.

Er mwyn lleihau'r risg hwn, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau cyfathrebu clir gyda’r holl fudd-ddeiliaid.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Deddf Safonau a Sefydliadau Ysgolion (Cymru) 2013
Fframwaith Bolisi Moderneiddio Addysg (cymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Ionawr 2009)